

lesu yn dod yn ôl yn fyw

Mathew 28: 1-20; Marc 16: 1-20; Luc 24: 1-53; Ioan 20: 1-29



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

lesu yn dod yn ôl yn fyw



- 1 Tri diwrnod ar ôl i Iesu farw, roedd yna ddaeargryn mawr. Dyma angel yr Arglwydd yn dod i lawr o'r nefoedd a rhoio'r garreg oddi ar geg y bedd ac eistedd arni. Roedd y milwyr yn crynu gan ofn a dyma nhw'n llewygu. Roedd y gwragedd, a oedd wedi dod i'r bedd gyda pherlysiâu i roi ar gorff Iesu wedi dychryn.



- 2 Dwedodd yr Angel wrth y gwragedd, "Ewch ar frys a dweud wrth ei ddisgyblion fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw". Aeth Mair Magdalen, Joanna, Mair mam Iago, a nifer o wragedd eraill i ddweud yr hanes wrth yr apostolion, ond doedd yr apostolion ddim yn eu credu nhw - roedden nhw'n meddwl fod y stori yn nonsens llwyr.



-
- 3 Aeth Pedr a loan i'r bedd i edrych os oedd hyn yn wir. Rhedodd y ddau gyda'i gilydd a gweld fod y garreg wedi symud. Plygodd loan i edrych i mewn i'r bedd. Yna dyma Simon Pedr yn cyrraedd ar ei ôl ac yn mynd yn syth i mewn i'r bedd. Gwelodd yntau'r stribedi o liain yn gorwedd yno ond roedd y corff ar gôll.



-
- 4 Aeth Mair Magdalen yn ôl i'r ardd i edrych am gorff Iesu. Plygodd i lawr i edrych i mewn i'r bedd a gweld dau angel mewn dillad gwyn yn eistedd lle roedd corff Iesu wedi cael ei roi i orwedd - un wrth y pen a'r llall wrth y traed. Dyma nhw'n gofyn i Mair, "Wraig annwyl, pam wyt ti'n crio?" "Maen nhw wedi cymryd fy Arglwydd i ffwrdd, a dw i ddim yn gwybod ble maen nhw wedi mynd ag e" atebodd.



-
- 5 Yna trodd Mair gweld rhywun yn sefyll yno. Roedd hi'n meddwl mai'r garddwr oedd e. Dwedodd Mair, "Syr, os mai ti sydd wedi'i symud, dywed lle rwy'ti wedi'i roi e, a bydda i'n mynd i'w nôl e." Yna atebodd y dyn, "Mair." Ar unwaith dyma hi'n sylweddoli mai Iesu ydoedd! Yna dywedodd Iesu, "Dos at fy mrodyr i a dweud wrthyn nhw, 'Dw i'n mynd at fy Nhad a'm Duw, eich Tad a'ch Duw chi hefyd.'"



-
- 6 Yr un diwrnod, roedd dau o ddilynwyr Iesu ar eu ffordd i bentref Emaus a dyma Iesu'n dod atyn nhw a dechrau cerdded gyda nhw. Ond doedden nhw ddim yn sylweddoli pwy oedd e. Dyma'r ddau yn esbonio iddo yr hyn oedd wedi diwgydd i Iesu. Esboniodd Iesu iddyn nhw gan ddweud fod rhaid i'r Meseia ddioddef cyn iddo gael ei anrhydeddu!




-
- 7 Gwahoddodd y dynion Iesu i aros y noson gyda nhw. Pan oedden nhw'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta, cymerodd dorth o fara, ac adrodd gweddi o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu iddyn nhw. Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli mai Iesu oedd gyda nhw, a'r foment honno diflannodd o'u golwg. Dyma nhw'n rhedeg yn ôl i Jerwsalem i ddweud wrth y disgyblion



-
- 8 Y noson honno, roedd y disgyblion gyda'i gilydd. Er bod y drysau wedi'u cloi am fod ganddyn nhw ofn yr arweinwyr Iddewig, dyma Iesu'n dod i mewn a sefyll yn y canol. "Peidiwch a bod ofn", dywedodd. Dangosodd ei ddwylo a'i ochr iddyn nhw. Roedd y disgyblion mor hapus pan welon nhw'r Arglwydd. Ond nid oedd Tomos gyda'r disgyblion eraill pan welon nhw Iesu. Pam glywodd Tomos eu bod wedi gweld yr Iesu, roedd yn gwrthod credu.



- 9 Wythnos yn ddiweddarach dyma Iesu yn ymddangos i'w ddisgyblion eto, a'r tro hwn roedd Tomos yno gyda nhw. Trodd yr Iesu at Tomos a dweud, "Edrych ar fy arddyrnau; rho dy fys i mewn ynddyn nhw. Estyn dy law i'w rhoi yn fy ochr i. Stopia amau! Creda!" A dyma Tomos yn dweud, "Fy Arglwydd a'm Duw!" "Ti wedi dod i gredu am dy fod wedi fy ngweld i," meddai Iesu wrtho. "Mae'r rhai fydd yn credu heb weld yn mynd i gael eu bendithio'n fawr."



- 10 Ymddangosodd Iesu i lawer o bobl eraill ar ôl iddo dod yn ôl yn fyw. Ond daeth yr amser i Iesu fynd yn ôl i'r Nefoedd. Fe ddywedodd wrth ei ddisgyblion ei fod am anfon yr Ysbryd Glân i'w helpu nhw. Roeddent i ddweud wrth bawb am y newyddion da am faddeuant a chariad Duw. Yna cafodd ei gymryd i ffwrdd i'r nefoedd. Dwedodd Angel wrth y disgyblion fod Iesu am ddod yn ôl yr un ffordd rhyw ddydd.



- 11 Cyfieithiad
www.beibl.net



CONTRIBUTED BY
Sue Bentley

© Sue Bentley 2015.

These images are made available for free download under the terms of a Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 Unported license.



www.freebibleimages.org